

RHISIERDYN, bardd yng Ngwynedd yn ail hanner y 14eg ganrif

Enw: Rhisierdyn
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: David Myrddin Lloyd

Y mae canon ei waith yn ansicr, a'r testun yn gymysg. Ceir ymdriniaeth ar yr awdlau a briodolir iddo yn Llyfr Coch Hergest a'r *The Myvyrian Archaiology of Wales* gan [Henry Lewis](#) yn y *B.B.C.S.*, cyf. I, rhan ii, 123-33. Canodd awdlau moliant i [Ronwy \(Fychan\) ap Tudur](#) (bu farw 1382), i Fyfanwy gwraig Ronwy Fychan, ac awdl-farwnad i [Syr Hywel y Fwyall](#) (bu farw 1381). Y mae llawysgrif N.L.W. 4973C, 260b, yn priodoli i Risierdyn yr awdl i abad Aberconwy a briodolir i [Gasnodyn](#) yn *The Myvyrian Archaiology of Wales*, ac y mae Pen. 118 (140) yn rhoi i Risierdyn yr awdl 'Y Duw uchaf y kyfarchaf,' a briodolir yn Llyfr Coch Hergest (col. 1251) i [Fleddyn Ddu](#). Y mae amryw lawysgrifau (e.e. Bod. 1 a 2, Pen. 90 a 100) yn cynnwys cywydd moliant i Hwlcyn ap Howel ap Ierwerth Ddu o Bresaddfed, Môn ('Cad ddirwy keidw ddwyrodd') ac yn ei briodoli i Risierdyn. Sonnir yn y cywydd hwn am Hwlcyn yn mynd ar bererindod i Gaersalem.

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Darllen Pellach

Nerys Ann Jones a Erwain Haf Rheinallt (goln.), *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan Ap Gruffud Ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch* (Aberystwyth 1995)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

